OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2008 No. 1273

# Rheoliadau Grantiau a Benthyciadau Dysgu y Cynulliad (Addysg Uwch) (Cymru) 2008

## RHAN 6

BENTHYCIADAU AT GOSTAU BYW

**Dehongli Rhan 6**

**49.**—(1) Yn y Rhan hon —

(a) mae myfyriwr yng nghategori 1 os yw'r myfyriwr yn preswylio yng nghartref ei rieni tra bydd yn bresennol ar y cwrs dynodedig neu os yw'n aelod o urdd grefyddol ac yn byw yn un o dai'r urdd honno;

(b) mae myfyriwr yng nghategori 2 os nad yw yng nghategori 1 a'i fod yn bresennol ar un neu fwy o'r canlynol —

(i) cwrs ym Mhrifysgol Llundain;

(ii) cwrs mewn sefydliad sy'n ei gwneud yn ofynnol iddo fod yn bresennol am hanner o leiaf o gyfanswm yr amser mewn unrhyw chwarter o'r cwrs yn y flwyddyn academaidd ar safle sydd yn gyfan gwbl neu yn rhannol yn ardal Dinas Llundain a chyn Ardal yr Heddlu Metropolitanaidd; neu

(iii) cwrs rhyngosod mewn sefydliad sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r myfyriwr cymwys ymgymryd â phrofiad gwaith neu gyfuniad o brofiad gwaith ac astudio ar yr amod bod y myfyriwr yn ymgymryd â'r profiad gwaith hwnnw neu'r cyfuniad hwnnw o brofiad gwaith ac astudio am hanner o leiaf o gyfanswm yr amser mewn unrhyw chwarter o'r cwrs yn y flwyddyn academaidd ar safle neu safleoedd sydd yn gyfan gwbl neu'n rhannol yn ardal Dinas Llundain a chyn Ardal yr Heddlu Metropolitanaidd;

(c) mae myfyriwr yng nghategori 3 os nad yw'r myfyriwr yng nghategori 1 ac os yw'r myfyriwr yn mynychu sefydliad tramor fel rhan o'i gwrs;

(ch) mae myfyriwr yng nghategori 4 os nad yw'r myfyriwr yng nghategori 1 a'i fod yn mynychu yr Athrofa;

(d) mae myfyriwr yng nghategori 5 os nad yw yng nghategorïau 1 i 4;

(dd) ystyr "y dyddiad perthnasol" ("*the relevant date*") yw diwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs dynodedig a bennir;

(e) "myfyriwr cymwys o dan y drefn newydd sydd â hawlogaeth lawn" ("*new system eligible student with full entitlement*") yw myfyriwr cymwys o dan y drefn newydd heblaw myfyriwr sydd â hawlogaeth wedi'i gostwng;

(f) "myfyriwr cymwys o dan yr hen drefn sydd â hawlogaeth lawn" ("*old system eligible student with full entitlement*") yw myfyriwr cymwys o dan yr hen drefn heblaw myfyriwr sydd â hawlogaeth wedi'i gostwng;

(ff) "myfyriwr sydd â hawlogaeth wedi'i gostwng" ("*student with reduced entitlement*") yw myfyriwr cymwys —

(i) nad yw'n gymwys i gael grant at gostau byw mewn cysylltiad â'r flwyddyn academaidd yn rhinwedd rheoliad 23(3)(a), (b) neu (c) neu rheoliad 23(5); neu

(ii) sydd, wrth wneud cais am fenthyciad at gostau byw, yn dewis peidio â rhoi'r wybodaeth y mae ei hangen i gyfrifo incwm ei aelwyd;

(g) os un flwyddyn academaidd yn unig yw hyd cwrs i raddedigion neu ar lefel ôl-radd ar gyfer hyfforddiant cychwynnol athrawon, nid yw'r flwyddyn honno i gael ei thrin fel y flwyddyn derfynol.